www.xtrapapers.com

# TGAU

# CYMRAEG AIL IAITH

# CWRS LLAWN/CWRS BYR ASESU MEWNOL (GWAITH CWRS)

Deunyddiau Enghreifftiol
a
Chynlluniau Marcio

2005

www.xtrapapers.com

www.xtrapapers.com



# Asesu Mewnol - Gwaith Cwrs

# Cymraeg Ail Iaith
# (Cwrs Llawn / Cwrs Byr)

## Deunyddiau enghreifftiol

**Tudalen**


- **Llên a Llun** **2**
- **Gwaith** **29**
- **Cynlluniau marcio** **43**

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Llên a Llun.

Pecyn: Seiliedig ar *Fy Ffrind*

Haen Sylfaenol

| Sgìl | Tasgau posibl |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Darllen 'Fy ffrind'.<br><br>Ysgrifennu 8 pwynt am Sam.<br><br>NEU<br><br>Llunio proffil o Sam.<br><br>NEU<br><br>Ateb cyfres o gwestiynau am y darn. |
| (Ymateb llafar i ddarllen) | Cyflwyno 'Fy Ffrind' i bartner/athro. |
| Llafar (unigol) | Cyflwyniad unigol am 'Fy ffrind/iau i'. |
| Llafar (Chwarae rôl) | Gweler sgwrs sefyllfa: *Clwb Rygbi Moffett* |
| Ysgrifennu | Llythyr at ffrind post yn cyflwyno eich hun.<br><br>NEU<br><br>Proffil o'r ffrind delfrydol. |

www.xtrapapers.com



# Fy Ffrind

Bachgen doniol ydy fy ffrind. Sam ydy ei enw e, ac mae e'n fachgen tal a chryf. Mae Sam yn bymtheg oed, ond mae e'n edrych yn fwy na phymtheg. Mae e'n brolio'n aml ei fod e'n siafio ddwy waith bob wythnos!

Mae gwallt tywyll, cyrliog gan Sam, ac mae gwên ar ei wyneb bob amser. Mae e'n meddwl ei fod e'n olygus iawn, ac mae e'n edrych yn y drych yn aml. Dydw i ddim yn meddwl ei fod e'n olygus oherwydd mae ei drwyn e'n fawr ac yn gam. Fe gafodd e gic ar ei drwyn pan oedd e'n chwarae rygbi tua blwyddyn yn ôl!

Mae'r merched i gyd yn hoff iawn o Sam, ond dydw i ddim yn siwr beth sy'n apelio atyn nhw - ei fod e'n olygus neu ei dafod ffraeth e. Ei dafod ffraeth e, rydw i'n meddwl. Mae rhywbeth doniol ganddo fe i'w ddweud bob amser, a fyddwch chi ddim yn hir yn ei gwmni e heb chwerthin. Mae e'n cofio pob stori ddoniol a glywodd e erioed, ac mae e'n gallu dweud y storïau yma'n dda iawn. Fe welwch chi e'n sefyll yn aml ynghanol criw o fechgyn a merched a'i dafod e'n mynd a'i freichiau e'n chwifio, a phawb bron marw gan chwerthin.

Wn i ddim beth fydd Sam ar ôl gadael yr ysgol. Mae e'n fachgen ddigon da yn y dosbarth, ond dydy e ddim yn hoff iawn o 'swoto'. Ond mae e wrth ei fodd ar y cae chwarae. Mae e'n chwaraewr medrus a chyflym, ac yn sicr fe fydd e'n gapten ar dîm yr ysgol pan fydd e yn y chweched dosbarth. Mae e'n gricedwr da hefyd ac yn fowliwr cyflym iawn.

Ei uchelgais ydy gwisgo crys coch Cymru, ac mae e'n siwr o wneud hynny ryw ddydd. Fydd neb yn fwy balch na fi pan fydd e'n troi allan i Gymru ar Stadiwm y Mileniwm.

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL / SGWRS SEFYLLFA**

Haen Sylfaenol

Y Sefyllfa – Parti ffrind

| |
|---|
| **CLWB RYGBI MOFFETT**<br><br>Beth am gynnal eich parti pen-blwydd yma?<br><br>Diddordeb?<br>Ffoniwch (02356 326079) |

Rydych chi eisiau trefnu parti pen-blwydd i'ch ffrind yn y Clwb Rygbi. Rydych chi'n ffonio.
*You want to arrange a birthday party for your friend in the Rugby Club. You phone.*

Dylech:

(i) dweud pwy ydych chi;
(ii) egluro eich bod eisiau parti yn y Clwb Rygbi;
(iii) dweud pryd mae pen-blwydd eich ffrind;
(iv) sôn am beth rydych chi eisiau i fwyta ac yfed;
(v) dweud faint a phwy fydd yn y parti;
(vi) holi am y pris;
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) say who you are;*
*(ii) explain that you want a party at the Rugby Club;*
*(iii) say when your friend's birthday is;*
*(iv) say what you will want to eat and drink;*
*(v) say how many and who will be in the party;*
*(vi) enquire about the cost;*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL / SGWRS SEFYLLFA**

Haen Uwch

Y Sefyllfa – Parti ffrind

# CLWB RYGBI MOFFETT

Beth am gynnal eich parti pen-blwydd yma?

Diddordeb?
Ffoniwch (02356 326079)

Rydych chi eisiau trefnu parti pen-blwydd i'ch ffrind yn y Clwb Rygbi. Rydych chi'n ffonio.
*You want to arrange a birthday party for your friend in the Rugby Club. You phone.*

Dylech:

(i) dweud pwy ydych chi;
(ii) egluro pam rydych chi'n ffonio;
(iii) dweud pryd mae pen-blwydd eich ffrind a pha oed fydd hi/e;
(iv) sôn am beth rydych chi eisiau i fwyta ac yfed;
(v) dweud faint a phwy fydd yn y parti;
(vi) holi am y pris gan ddweud faint rydych chi'n gallu talu;
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) say who you are;*
*(ii) explain why you are phoning;*
*(iii) say when your friend's birthday is and how old she/he will be;*
*(iv) say what you will want to eat and drink;*
*(v) say how many and who will be in the party;*
*(vi) enquire about the cost saying how much you can pay;*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Llên a Llun

Pecyn: Seiliedig ar y ddramodig *Yr Inspector*.

Haen Sylfaenol

| Sgìl | Tasgau posibl |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Ysgrifennu'r stori ar ffurf stribed cartŵn.<br><br>NEU<br><br>Ysgrifennu adroddiad i gylchgrawn yr ysgol am y digwyddiad.<br><br>NEU<br><br>Ysgrifennu e-bost at ffrind am y digwyddiad. |
| Llafar (unigol) | Disgybl yn sôn wrth ffrind / mam / tad am ymweliad rhywun â'r ysgol. |
| Llafar (chwarae rôl) | Gweler sgwrs sefyllfa: *Ymweliad Seren.* |
| Ysgrifennu | Ysgrifennu adroddiad / llythyr / dyddiadur am achlysur arbennig yn yr ysgol. |

www.xtrapapers.com



Yr *Inspector* (Dylid newid yr enwau/cwestiynau/atebion ayyb fel bod angen)

| | |
|---|---|
| Plentyn 1: | Mae hi'n (e'n) dod. Mae hi'n (e'n) dod. |
| Athro/Athrawes: | Bore da blant! |
| Plant: | Bore da Miss (Syr)! |
| Athro/Athrawes: | Eisteddwch. Nawrte! Y Gofrestr. David Bennett? |
| Plentyn 2: | Yma, Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Lisa Davies? |
| Plentyn 3: | Yma, Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | William Evans? |
| Plentyn 4: | Yma. |
| Athro/Athrawes: | Yma BETH? |
| Plentyn 4: | Yma, MISS (SYR). |
| Athro/Athrawes: | Siân Jones? |
| Plentyn 5: | Yma, Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Wrth gwrs, wrth gwrs! Mae Siân yma bob amser. Da iawn Siân. Carl Llewelyn? |
| Plentyn 6: | Yma, Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Phillip Peters? |
| Plentyn 3: | Mae Philip yn absennol heddiw Miss (Syr). Mae annwyd arno fe. |
| Athro/Athrawes: | Diolch. Nawrte, gwrandewch yn ofalus. Mae'r *Inspector*, Mrs (Mr) J Hyphenated Smith yn dod i'r ysgol heddiw. Rhaid i chi fod yn dda. Rhaid i chi wisgo'r wisg ysgol. William, ble mae dy dei di? |
| Plentyn 4: | Yn fy mag i. |
| Athro/Athrawes: | MISS (SYR). |
| Plentyn 4: | Yn fy mag i MISS (SYR). |
| Athro/Athrawes: | Yn dy fag di. Rhaid i ti wisgo hi. Nawrte, gwrandewch! Roedd yr *Inspector*, Mrs (Mr) J Hyphenated Smith yn ysgol Bro Cambria ddoe. |
| Plant: | O!/Bro Cambria/ddoe. |
| Athro/Athrawes: | Rydw i wedi siarad â Dr Eric Evans, prifathro Ysgol Bro Cambria. Mae e wedi rhoi cwestiynau'r *Inspector* i fi. Dyma nhw.<br>Cwestiwn un. Cwestiwn Mathemateg. Faint ydy pump a pump? David (2)? |
| Plentyn 2: | Naw, Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Naw? Naw? Nage! Nage! Siân (3), d'wed wrtho fe. |
| Plentyn 5: | Deg, Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Da iawn, Siân. Ardderchog. Mae Siân yn iawn bob amser. Da iawn, Siân. Glywest ti David (2)? DEG. Dyna dy ateb di. Pan fydd yr *Inspector* yn gofyn y cwestiwn yna, rhaid i ti roi dy law i fyny. Faint ydy pump a pump David? |
| Plentyn 2: | Deg Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Iawn. Nawr, dy gwestiwn di Lisa (3). Cwestiwn Saesneg. Pwy sy wedi ysgrifennu llyfrau y *Secret Seven.* |
| Plentyn 3: | Ym....ym.... *Shakespeare* Miss (Syr)? |
| Athro/Athrawes: | Twt! Twt! Twt! Siân? |
| Plentyn 5: | *Enid Blyton*, Miss (Syr). |

www.xtrapapers.com



| | |
|---|---|
| Athro/Athrawes: | Da iawn, Siân. Rhagorol. Nawrte, Lisa (3). Dyna dy gwestiwn di. Pwy sy wedi sgrifennu y *Secret Seven*? |
| Plentyn 3: | Enid Blyton, Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Nawrte! Cwestiwn William (4). Cwestiwn Daearyddiaeth. Beth ydy enw'r mynydd mwya uchel yng Nghymru? |
| Plentyn 4: | Ym...ym...ym... |
| Athro/Athrawes: | Mae e wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar. William? |
| Plentyn 4: | Rowan Williams Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Rowan Williams? Rowan Williams? Mynydd, William, mynydd. D'wed wrtho, Siân. |
| Plentyn 5: | Yr Wyddfa, Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Da iawn, Siân. Mae Siân mor glyfar. Cwestiwn Siân sy nesa. Cwestiwn anodd, ond mae Siân mor glyfar. Nawrte Siân, pwy ydy'r Prif-weinidog? |
| Plentyn 5: | Mr. Tony Blair Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Ardderchog Siân! Ardderchog! Nawrte, cwestiwn Carl. Cwestiwn Chwaraeon. Pa chwaraewr rygbi sy wedi ennill y mwya o gapiau dros Cymru? Carl? |
| Plentyn 6: | Wn i ddim, Miss (Syr). |
| Plentyn 5: | Ieuan Evans, Miss (Syr). Roedd e yn yr ysgol yma Miss (Syr). |
| Athro/Athrawes: | Wrth gwrs. Da iawn, Siân. Nawr Carl (6), beth ydy ateb dy gwestiwn di? |
| Plentyn 6: | Ieuan Evans, Miss (Syr) |
| Athro/Athrawes: | Nawr cofiwch bawb - pan fydd yr *Inspector* yn gofyn eich cwestiwn chi, codwch eich llaw i fyny. Iawn? |
| Plant: | Iawn, Miss (Syr). |
| Plentyn 1: | Mae'r *Inspector* yn dod. |
| Mrs (Mr) J-Hyphen-Smith: | Bore da, Miss (Mr) _____________. Bore da, blant. |
| Plant/Athro/Athrawes: | Bore da Mr/Mrs J Hyphenated Smith. |
| Mrs (Mr) J Hyphen-Smith: | Eisteddwch. Mae nifer o gwestiynau 'da fi i ofyn i chi. Cwestiwn un. Cwestiwn Mathemateg. Faint ydy pump a pump? |
| Plentyn 2: | Deg Miss (Syr) |
| Mrs (Mr) J-Hyphen-Smith: | Da iawn! Da iawn! Y cwestiwn nesa. Cwestiwn Saesneg. Pwy sy wedi ysgrifennu y *Secret Seven*? |
| Plentyn 3: | *Enid Blyton* Miss (Syr). |
| Mrs (Mr) J-Hyphen-Smith: | Ardderchog! Ardderchog! Nesa, cwestiwn Daearyddiaeth. Beth ydy enw'r mynydd mwya uchel yng Nghymru? |
| Plentyn 4: | Yr Wyddfa Miss (Syr). Mae e wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar. |
| Mrs (Mr) J-Hyphen-Smith: | Wel Rhagorol! Rhagorol. Ysgol fodern. Ysgol fodern iawn. Nawr, y cwestiwn nesa ___**CHI**___ (yn pwyntio at plentyn 6) Pwy ydy'r Prif Weinidog? |
| Plentyn 6: | Ieuan Evans Miss (Syr). |
| Plentyn 5: | Hei! Fy nghwestiwn i ydy'r cwestiwn yna, dim dy gwestiwn di. |
| Mrs (Mr) J-Hyphen-Smith: | Felly wir. Mrs (Mr) ____________, rydw i eisiau gair gyda chi. Blant, ewch adre. Gwyliau am y dydd. |
| Plant: | Hwre! ayyb. |

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL/SGWRS SEFYLLFA.**

Haen Sylfaenol

Y Sefyllfa - Ymweliad Seren

Dydd Sadwrn rydych chi eisiau mynd i le arbennig achos mae un o sêr Cymru yno (e.e. o fyd chwaraeon, canu pop, y sinema). Rhaid i chi berswadio'ch ffrind i ddod gyda chi. Yr athro/athrawes ydy'r ffrind.

*(On Saturday you want to go to a particular place because a famous Welsh celebrity will be there (e.g. from the world of sport, the pop scene, the cinema). You have to persuade your friend to come with you. The teacher is your friend.)*

Dylech:

(i) dechrau gyda chyfarchiad addas,
(ii) dweud ble hoffech chi fynd dydd Sadwrn,
(iii) dweud pa seren fydd yno,
(iv) rhoi manylion am y digwyddiad (Ble? Pryd?),
(v) dweud faint o arian fydd eisiau arnoch chi,
(vi) gofyn i'ch ffrind ddod gyda chi,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) begin with an appropriate greeting,*
*(ii) say where you would like to go on Saturday,*
*(iii) say who the star is who will be there,*
*(iv) give details about the event (Where? When?),*
*(v) say how much money you will need,*
*(vi) ask your friend to come with you,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



## CHWARAE RÔL/SGWRS SEFYLLFA.

Haen Uwch

Y Sefyllfa - Ymweliad Seren

Dydd Sadwrn rydych chi eisiau mynd i le arbennig achos mae un o sêr Cymru yno (e.e. o fyd chwaraeon, canu pop, y sinema). Rhaid i chi berswadio'ch ffrind i ddod gyda chi. Yr athro/athrawes ydy'r ffrind.

*(On Saturday you want to go to a particular place because a famous Welsh celebrity will be there (e.g. from the world of sport, the pop scene, the cinema). You have to persuade your friend to come with you. The teacher is your friend.)*

Dylech:

(i) dechrau gyda chyfarchiad addas,
(ii) dweud ble hoffech chi fynd dydd Sadwrn,
(iii) dweud ychydig am y seren fydd yno,
(iv) rhoi manylion am y digwyddiad (Ble? Pryd? Pam?),
(v) dweud faint o arian fydd eisiau arnoch chi ac i beth,
(vi) perswadio'ch ffrind i ddod gyda chi,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) begin with an appropriate greeting,*
*(ii) say where you would like to go on Saturday,*
*(iii) say a little about the star who will be there,*
*(iv) give details about the event (Where? When? Why?),*
*(v) say how much money you will need and what for,*
*(vi) persuade your friend to come with you,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner,*

www.xtrapapers.com



Cylch profiad: Llên a Llun

Pecyn: Seiliedig ar *Dingo, (*cyfres Taro 12, CBAC)

Haen Sylfaenol / Uwch

| Sgìl | Tasgau posibl |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Darllen *Dingo*, cyfres *Taro 12*, CBAC (ar y lefel briodol).<br><br>Ysgrifennu llythyr gan y prifathro at rieni Dingo a Wayne.<br>NEU<br>Ysgrifennu darn ar gyfer dyddiadur Ivor Wynne neu'r prifathro.<br>NEU<br>Ysgrifennu darn(au) ar gyfer dyddiadur un o'r bechgyn.<br>NEU<br>Ysgrifennu cerdyn post / llythyr o Milan at ffrind mewn ysgol arall – yn egluro beth sy wedi digwydd. |
| (Ymateb llafar i ddarllen) | Cyflwyno manylion am stori Dingo i bartner/athro (er mwyn denu eraill i ddarllen y stori) |
| Llafar (Unigol) | Cyflwyniad unigol am:<br>Ymweliad â lle arbennig.<br>NEU<br>Ymweliad â gêm arbennig.<br>NEU<br>Digwyddiad arbennig yn yr ysgol. |
| Ysgrifennu | Llythyr at ffrind post yn sôn amdanoch chi a'ch ffrindiau / beth rydych chi'n wneud yn yr ysgol a dros y penwythnos.<br>NEU<br>Proffil o'r ffrind delfrydol.<br>NEU<br>Taflen am reolau'r ysgol / rheolau clwb pêl-droed.<br>NEU<br>Stori am Dingo a Wayne.<br>NEU<br>Deialog rhwng Dingo a Wayne (creu stori newydd sbon).<br>NEU<br>Stori 'Helynt yn yr Ysgol'. |

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Llên a Llun.

Pecyn: Seiliedig ar *Madlen* gan Eleri Llewelyn Morris.

Haen Sylfaenol - Fersiwn 1 a Fersiwn 2
Haen Uwch - Fersiwn 2 a Fersiwn 3

| Sgìl | Tasgau posibl |
|---|---|
| Darllen<br>(asesu trwy ysgrifennu) | Sylfaenol - Darllen Fersiwn 1 a/neu 2 yna creu proffil 10 ffaith am Glenda NEU proffil 5 faith am Glenda a 5 ffaith am Madlen.<br><br>Uwch - Ysgrifennu paragraff yr un yn disgrifio ac yn cymharu Madlen, Glenda a Daniel.<br><br>Uwch/Sylfaenol - Ysgrifennu'r stori yn eu geiriau eu hun o dan y lluniau. |
| (Ymateb llafar i ddarllen) | Cyflwyno manylion am stori Madlen i bartner/athro.<br>NEU<br>Cyflwyno'r cymeriad Madlen neu/a Glenda i bartner/athro. |
| Llafar (unigol) | Cyflwyniad unigol am fwlio. |
| Llafar (Chwarae rôl) | Gweler sgwrs sefyllfa: *Y Bwli.* |
| Ysgrifennu | Sylfaenol - Creu proffil o'r bwli.<br>NEU<br>sgwrs rhwng bwli a'i ddioddefwr.<br><br>Uwch - Ysgrifennu stori am "Y Bwli".<br>NEU<br>ysgrifennu llythyr oddi wrth Madlen i ffrind yn Llundain yn sôn am ei hysgol/ffrindiau newydd. |


Wyt ti eisiau lifft i'r disgo?
Diolch.


Grêt! Dw i'n mynd i'r disgo efo Daniel.
Rhaid i mi roi'r colur yn y bag.


Wela i chi am un ar ddeg o'r gloch. Iawn?
Iawn.
Hwyl


O'r diwedd - Daniel a fi
DISGO
NEUADD Y
PENTREF
Ydyn ni'n mynd i ddawnsio, tybed?


TOILEDAU
Reit, rhaid i mi frysio.


Wel, wel!
Beth sy yn y bag yma?

www.xtrapapers.com



















www.xtrapapers.com





www.xtrapapers.com




















www.xtrapapers.com





www.xtrapapers.com





www.xtrapapers.com















Mae gen ti wallt neis, Madlen.


O mae o yn dy siwtio di!


Mae'n well i ti gadw allan o ffordd Glenda.


Llygoden Llundain!
Llygoden Llundain!
Llygoden Llundain!

www.xtrapapers.com
















www.xtrapapers.com



## CHWARAE RÔL/ SGWRS SEFYLLFA

Haen Sylfaenol

Y Sefyllfa - Y Bwli

Un bore Llun rydych chi eisiau chwarae triwant. Rydych chi'n rhoi pwysau ar ddisgybl arall i ddod gyda chi. Yr athro/ athrawes ydy'r disgybl arall.

*(One Monday morning you want to play truant. You put pressure on another pupil to come with you. The teacher is the other pupil.)*

Dylech:

(i) dechrau gyda chyfarchiad addas,
(ii) dweud eich bod chi ddim eisiau mynd i'r ysgol,
(iii) egluro eich bod chi'n mynd i chwarae triwant,
(iv) sôn am ble gallech chi fynd,
(v) gofyn i'r disgybl arall ddod gyda chi,
(vi) rhoi pwysau ar y disgybl arall i gytuno,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) begin with an appropriate greeting,*
*(ii) say you do not want to go to school,*
*(iii) explain that you are going to play truant,*
*(iv) mention where you could go,*
*(v) ask the other pupil to come with you,*
*(vi) put pressure on the other pupil to agree,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



## CHWARAE RÔL/ SGWRS SEFYLLFA

Haen Uwch

Y Sefyllfa - Y Bwli

Un bore Llun rydych chi eisiau chwarae triwant. Rydych chi'n rhoi pwysau ar ddisgybl arall i ddod gyda chi. Yr athro/ athrawes ydy'r disgybl arall.

*(One Monday morning you want to play truant. You put pressure on another pupil to come with you. The teacher is the other pupil.)*

Dylech:
(i) dechrau gyda chyfarchiad addas,
(ii) dweud eich bod chi ddim eisiau mynd i'r ysgol. Pam?
(iii) egluro eich bod chi'n mynd i chwarae triwant,
(iv) sôn am ble gallech chi fynd a beth gallech wneud,
(v) gofyn i'r disgybl arall ddod gyda chi,
(vi) rhoi pwysau ar y disgybl arall i gytuno, a gwneud bygythiadau,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*
*(i) begin with an appropriate greeting.*
*(ii) say you do not want to go to school. Why?*
*(iii) explain that you are going to play truant,*
*(iv) mention where you could go, and what you could do,*
*(v) ask the other pupil to come with you,*
*(vi) put pressure on the other pupil to agree and make threats,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Llên a Llun.

Pecyn: Seiliedig ar *Angau Dwbwl*

Haen Uwch

| Sgìl | Tasgau posibl |
|---|---|
| Darllen<br>(asesu trwy ysgrifennu) | Darllen *Angau Dwbwl*.<br><br>Ysgrifennu: Chi ydy Inspector Jack Frost. Yn eich llyfr nodiadau ysgrifennwch y digwyddiadau yn y drefn iddynt ddigwydd.<br><br>NEU<br><br>Roeddech chi siŵr o fod yn meddwl mai pobl oedd Joe a Fred. Rhestrwch eich rhesymau am hynny. |
| Llafar<br>(Chwarae rôl) | Gweler sgwrs sefyllfa: *Ymosodiad*. |
| Ysgrifennu | Stori gyda diwedd annisgwyl.<br><br>NEU<br><br>Stori yn gorffen gyda "a dyna'r diwrnod mwyaf cyffrous a ges i erioed.” |

www.xtrapapers.com



*Fe ddaeth Mr Ellis, yr athro Cymraeg, i mewn i ddosbarth John, ac meddai fe, "Yn lle traethawd yr wythnos yma, ysgrifennwch stori - unrhyw stori am unrhyw beth."*
*" Gawn ni ysgrifennu stori am ladd?" gofynnodd John.*
*"Unrhyw stori," atebodd Mr Ellis. Dyma'r stori ysgrifennodd John (wedi ei chywiro gan Mr Ellis, wrth gwrs!)*

## Angau Dwbwl

Ciliodd y truan nôl at y ffenest a dechrau pledio gyda'r llofrudd. Roedd e'n gwybod bod Fred y llofrudd wedi lladd llawer un o'r blaen ac roedd e'n ofni nawr fod ei ddiwedd ei hun yn agos.

Cerddodd Fred o amgylch Joe druan a chwerthin yn uchel. Creadur cas oedd e heb unrhyw deimlad dynol. Roedd e'n hoffi lladd.

Ac fel roedd e'n cerdded, roedd e'n tynnu rhaff yn dynn am Joe, a doedd Joe ddim yn gallu symud. Ond roedd e'n gallu siarad.

"Gadewch i mi fynd, er mwyn fy ngwraig fach annwyl," plediodd Joe.

"Eich gwraig? Fe fydda i'n ei lladd hi hefyd," meddai Fred gan chwerthin yn greulon. Ac o hyd roedd y rhaff yn mynd yn dynnach ac yn dynnach, ac roedd Joe yn chwysu gan ofn. Roedd yr haul yn boeth iawn, hefyd, ar y ffenest y tu ôl iddo fe.

"Dyna fe," meddai Fred, y llofrudd. "Mae'r rhaff yn dynn amdanoch chi nawr. Fyddwch chi ddim yn gallu dianc. Fe fydda i nôl mewn hanner awr i'ch lladd chi. Rydw i'n mynd i nôl eich gwraig nawr."

Ac i ffwrdd ag e gan adael i Joe chwysu yn y gwres mawr yn y ffenest.

Ymhen hanner awr fe ddaeth Fred nôl. Doedd gwraig Joe ddim gyda fe ond roedd gwên greulon ar ei wyneb e. Nawr roedd e'n mynd i ladd Joe.

Ond beth oedd y sŵn? Roedd sŵn mawr yn dod o rywle ac roedd e'n dod yn nes ac yn nes.

"A!" meddai Joe. "Mae rhywun yn dod i f'achub i."

Ond na! Doedd neb yn dod i achub Joe. Roedd sŵn gwynt mawr nawr gyda'r sŵn arall. Ond dyna beth od! Nid chwythu oedd y gwynt, ond tynnu. Roedd y gwynt yma'n tynnu Fred a Joe, ac roedden nhw'n ceisio ymladd yn ei erbyn. Ond roedd y gwynt yn rhy gryf iddyn nhw, ac fe ddiflannodd Fred y pry cop a Joe y gleren i fyny pibell y peiriant-tynnu-llwch!

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL/SGWRS SEFYLLFA**

Haen Sylfaenol

Y Sefyllfa - Ymosodiad

<u>HYSBYSEB YR HEDDLU</u>

Ymosodiad ar geffyl yn Aberniwl -
Nos Sadwrn, Ebrill 11.

Gwobr am wybodaeth.
Ffôn (02741) 123456

Rydych chi wedi gweld yr hysbyseb uchod ac mae gwybodaeth gennych chi. Rydych chi'n ffonio.
*(You have seen the above advertisement and you have information. You phone.)*

Dylech:

(i) dweud pwy ydych chi,
(ii) egluro bod gwybodaeth gyda chi,
(iii) dweud ble roeddech chi nos Sadwrn,
(iv) sôn am yr amser a'r tywydd,
(v) egluro beth weloch chi,
(vi) gofyn faint fyddwch chi'n cael eich talu,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) say who you are,*
*(ii) explain that your have information,*
*(iii) say where you were on Saturday night,*
*(iv) mention the time and the weather,*
*(v) explain what you saw,*
*(vi) ask how much you will be paid,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL/SGWRS SEFYLLFA**

Haen Uwch

Y Sefyllfa: Ymosodiad

| |
|---|
| <u>HYSBYSEB YR HEDDLU</u> |
| Ymosodiad ar geffyl yn Aberniwl - Nos Sadwrn, Ebrill 11. |
| Gwobr am wybodaeth. Ffôn (02741) 123456 |

Rydych chi wedi gweld yr hysbyseb uchod ac mae gwybodaeth gennych chi. Rydych chi'n ffonio.
*(You have seen the above advertisement and you have information. You phone.)*

Dylech:

(i) dweud pwy ydych chi,
(ii) egluro pam rydych chi'n ffonio,
(iii) dweud ble roeddech chi nos Sadwrn a phwy oedd gyda chi,
(iv) sôn am yr amser a'r tywydd,
(v) egluro beth weloch chi,
(vi) gofyn faint fyddwch chi'n cael eich talu a beth gallech wneud gyda'r arian,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) say who you are,*
*(ii) explain why your are phoning,*
*(iii) say where you were on Saturday night and who was/were with you,*
*(iv) mention the time and the weather,*
*(v) explain what you saw,*
*(vi) ask how much you will be paid saying what you could do with the money,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Llên a Llun

Pecyn: Seiliedig ar 'Y Bocs' *Poeth* , tud. 90

Haen Uwch

| Sgìl | Tasgau posibl |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Darllen y gerdd '*Y Bocs*', *Poeth*, tud. 90 (neu gerdd briodol arall am bobl ddigartref).<br><br>Ysgrifennu darn ar sail y profiadau a geir yn y gerdd, e.e. llythyr gan y person digartref yn y gerdd / dyddiadur y person digartref, gan ychwnanegu sut mae'r person yn teimlo. |
| (Ymateb llafar i ddarllen) | Cyfweliad radio / ar fideo gyda'r person digartref yn y gerdd gyda'r athro/athrawes yn cymryd rhan yr 'holwr'. |
| Llafar (Unigol) | Cyflwyno gwybodaeth am y digartref i eraill. |
| Ysgrifennu | Paratoi deunydd cyhoeddusrwydd sy'n rhoi gwybodaeth am ddigwyddiad i godi arian i un o'r elusennau sy'n cynorthwyo'r digartref a'r rhesymau dros ei gynnal, e.e. llythyrau, taflenni, gwybodaeth ar gyfer gwefan, datganiad i'r wasg ac ati.<br>NEU<br>Ysgrifennu adroddiad byr am y gweithgaredd / erthygl am y gweithgaredd - ar ôl ei gynnal.<br>NEU<br>Ysgrifennu stori am berson digartref. |

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Gwaith

Pecyn: Profiad Gwaith

Haen Sylfaenol

| Sgìl | **Tasgau Posibl** |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Darllen – Darllen 3 dyddiadur am 3 math gwahanol o waith.<br>Asesiad – llenwi ffurflen ymateb<br>• Amser dechrau<br>• Amser gorffen<br>• Amser cinio<br>• Teithio<br>• Math o waith<br>• Nifer o weithwyr<br>• Gwahanol fathau o waith a wnaethpwyd<br>• Sut groeso<br>• Sut oedd y bós<br>• Pethau da / diddorol<br>• Pethau diflas |
| Llafar<br>(unigol) | Siarad am eu profiad gwaith nhw gan ddilyn yr uchod. |
| Llafar<br>(Chwarae rôl) | Gweler sgwrs sefyllfa: *Gwaith rhan amser.* |
| Ysgrifennu | Ysgrifennu – Dyddiadur Profiad Gwaith.<br>i) Nodi tasgau/gweithgareddau o ddydd i ddydd.<br>ii) Profiadau arbennig.<br>iii) Pethau da/diddorol.<br>iv) Pethau diflas. |

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL/SGWRS SEFYLLFA.**

Haen Sylfaenol

Y Sefyllfa - Gwaith rhan amser

| |
|---|
| **Mae angen pobl ifanc golygus i fod yn fodelau mewn sioe ffasiynau**<br><br>Diddordeb? Ffoniwch (07213) 365401 |

Rydych chi wedi gweld yr hysbyseb uchod ac mae diddordeb gennych chi. Rydych chi'n ffonio.
*(You have seen the above advertisement and you are interested. You phone.)*

Dylech:

(i) dweud pwy ydych chi,
(ii) egluro bod diddordeb gyda chi,
(iii) disgrifio eich hun,
(iv) esbonio pam rydych chi eisiau'r gwaith,
(v) holi am y sioe (amser/dyddiad/lle),
(vi) gofyn faint fyddwch chi'n cael eich talu,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) say who you are,*
*(ii) explain that you are interested,*
*(iii) describe yourself,*
*(iv) explain why you want the work,*
*(v) enquire about the show (time/date/place),*
*(vi) ask how much you will be paid,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL/SGWRS SEFYLLFA.**

Haen Uwch

Y Sefyllfa - Gwaith rhan amser

| |
|---|
| **Mae angen pobl ifanc golygus i fod yn fodelau mewn sioe ffasiynau** |
| Diddordeb? Ffoniwch (07213) 365401 |

Rydych chi wedi gweld yr hysbyseb uchod ac mae diddordeb gennych chi. Rydych chi'n ffonio.
*(You have seen the above advertisement and you are interested. You phone.)*

Dylech:

(i) dweud pwy ydych chi,
(ii) egluro pam rydych chi'n ffonio,
(iii) disgrifio eich hun a sôn am eich profiad,
(iv) esbonio pam hoffech chi wneud hyn,
(v) holi am y sioe (amser/dyddiad/lle),
(vi) gofyn faint fyddwch chi'n cael eich talu gan ddweud beth allech chi wneud â'r arian,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) say who you are,*
*(ii) explain why you are phoning,*
*(iii) describe yourself mentioning your experience,*
*(iv) explain why you would like to do this,*
*(v) enquire about the show (time/date/place),*
*(vi) ask how much you will be paid saying what you could do with the money,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Gwaith

Pecyn:  Profiad Gwaith

Haen Uwch / Pontio

| Sgìl | **Tasgau Posibl** |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Darllen hysbyseb am swydd a dau lythyr cais gwahanol.<br>Rhestru cryfderau a gwendidau'r ddau. |
| (Ymateb llafar i ddarllen) | Nodi cryfderau a gwendidau'r ddau lythyr cais a ddarllenwyd. Dod i gasgliad pa un yw'r gorau ar gyfer y swydd a pham. |
| Llafar<br>(Chwarae rôl) | Cael cyfweliad am y swydd gyda'r athro/athrawes yn chwarae rhan y rheolwr. |
| Ysgrifennu | Ysgrifennu – Llythyr cais am swydd wahanol. |

YN EISIAU

PERSON IFANC I WEITHIO FEL DERBYNNYDD

MEWN GWESTY PRYSUR.

- ORIAU GWAITH 7.30 – 4.00 O'R GLOCH   DYDD MERCHER – DYDD SUL
- DYDD LLUN A DYDD MAWRTH – GWYLIAU
- Y GALLU I DDELIO GYDA PHOBL A SIARAD CYMRAEG YN HANFODOL
- HEFYD RHAID GALLU YSGRIFENNU CYMRAEG A DEFNYDDIO CYFRIFIADUR
- BYDDAI O FANTAIS GALLU :
  HELPU TU ÔL I'R BAR
  HELPU GYDA CHARIO BAGIAU
  HELPU YN Y *CRECHE*.

ANFONWCH LYTHYR CAIS A CV AT:

Y Rheolwr, Gwesty'r Onnen, Brynbach erbyn Mai 1af.

www.xtrapapers.com



Brynllan
Llanfawr
CD23 N12.

Y Rheolwr
Gwesty'r Onnen
Brynbach.
CD23 N14

Annwyl Reolwr,

Hoffwn wneud cais am y swydd a hysbysebwyd yn y Cymro'r wythnos ddiwethaf. Rydw i'n un deg wyth oed ac rydw i wedi gadael yr ysgol ers blwyddyn. Dechreuais i ar y cwrs Uwch Gyfrannol Cymraeg ond cefais waith mewn swyddfa Asiant Gwyliau cyn diwedd y flwyddyn. Rydw i wedi pasio TGAU mewn wyth pwnc.

Saesneg a Ffrangeg – A
Cymraeg, Drama, CDT – B
Mathemateg, Gwyddoniaeth a Daearyddiaeth – C.

Fel y dywedais, roeddwn i'n gweithio mewn swyddfa Asiant Teithio am naw mis a mwynheuais i'r gwaith yn fawr. Yn anffodus, cefais fy ngwneud yn ddiwaith oherwydd cwtogi ar staff fis Chwefror diwethaf. Rydw i'n mwynhau cyfarfod pobl a delio â'u problemau. Mae gen i ddau frawd ac un chwaer ac rydw i'n gwarchod plant bach fy mrawd ar nos Sadwrn felly baswn i'n gallu helpu yn y *creche*.

Rydw i wedi dysgu Cymraeg ac wedi pasio arholiad Cymraeg ail iaith yn yr ysgol. Yn y swyddfa Asiant Teithio, roeddwn i'n siarad Cymraeg â'r cwsmeriaid ac yn defnyddio'r cyfrifiadur a'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wyliau addas i'r cwsmeriaid.

Mae gen i lawer o ddiddordebau a fy mhrif ddiddordeb ydy chwarae hoci. Rydw i'n chwarae hoci i dîm cyntaf Brynbach ac rydyn ni'n chwarae bob prynhawn dydd Sadwrn.

Yr eiddoch yn gywir.

Sioned Gest.

www.xtrapapers.com



6 Ffordd yr Eglwys
Brynbach
CD23 N15.

Annwyl Reolwr,

Dw i'n ysgrifennu am y swydd oedd yn y papur lleol. Dw i'n un deg saith oed a dw i wedi bod yn gweithio i fy nhad fel prentis adeiladydd ar ôl gadael yr ysgol fis Mehefin diwethaf. Mae fy nheulu i gyd yn siarad Cymraeg ac mae gyda fi lawer o ffrindiau sy'n siarad Cymraeg. Dw i'n mynd i'r Eisteddfod bob blwyddyn ac yn aros yn y maes pobl ifanc. Mae'n grêt.

Mae gyda fi rownd bapur ar fore Sul a dw i wrth fy modd yn siarad efo'r hen bobl a'u helpu nhw gyda *jobs* bach. Dw i'n cael arian am eu helpu nhw hefyd. Dw i'n gryf ac yn gallu cario bagiau pobl yn y gwesty achos dw i wedi bod yn cario brics i fy nhad.

Dw i wedi pasio pedwar pwnc yn TGAU a dyma nhw:
CDT, Arlunio – gradd A
Cymraeg  a Maths – gradd D.

Rydw i wrth fy modd yn chwarae rygbi ac rydw i'n chwarae i dîm ieuenctid y sir. Rydw i hefyd yn hyfforddi plant bach i chwarae rygbi yn y clwb lleol. Dw i wrth fy modd efo plant bach.

Dw i hefyd wedi bod yn helpu y tu ôl i'r bar yn y clwb rygbi a baswn i'n gallu helpu yn bar chi. Dw i'n gallu gweithio ar y penwythnos achos mae brawd bach fi'n gallu gwneud y rownd bapur.

Mae gyda ni gyfrifiadur adre a dw i'n dda gyda cyfrifiadur – yn enwedig rhaglen *Office*. Dw i'n gallu dod am gyfweliad unrhyw amser.

Diolch yn fawr

John Hughes

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Gwaith

Pecyn: Gwaith yn y dyfodol

Haen Uwch

| Sgìl | Tasgau Posibl |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Darllen **Siôn Wyn – Cyfarwyddwr Cwmni Cyfrifiaduron.** **(*Cymry wrth eu gwaith*)**<br>Cynllunio Taflen Wybodaeth i hysbysebu'r cwmni ar y We. Rhaid cynnwys y 10 peth pwysicaf. Rhaid cynnwys lluniau a graffeg. |
| (Ymateb llafar i ddarllen) | Cyflwyno gwybodaeth am reolwr y cwmni i eraill. |
| Llafar<br>(Unigol) | Cyflwyno'r swydd hoffen nhw wneud yn y dyfodol, wedi ei seilio ar yr astudiaeth uchod. |
| Ysgrifennu | Astudiaeth o 3 swydd hoffen nhw wneud yn y dyfodol. e.e cymwysterau, cyflog, teithio, oriau, dyrchafiad, nodweddion da. |

www.xtrapapers.com



**Siôn Wyn – Cyfarwyddwr Cwmni Cyfrifiaduron**

Roedd gan Siôn Wyn ddau ddiddordeb arbennig yn yr ysgol, sef cyfrifiaduron a dysgu am y planedau a'r gofod.

"Roeddwn i'n mwynhau cyfrifiaduron yn fawr," meddai. "Es i i Ysgol Dyffryn Conwy, lle roedd adran gyfrifiaduron dda iawn ac roeddwn i'n lwcus iawn i gael athrawon ardderchog i fy nysgu."

Ar ôl gadael yr ysgol aeth e i Goleg Aberystwyth am dair blynedd ac astudio cyfrifiaduron yno. Ar ôl gorffen ei gwrs dilynodd gwrs arall i fod yn athro ysgol gynradd a chafodd gynnig gwaith athro ar Ynys Môn.

"Ond penderfynais i fynd i weithio mewn diwydiant yn lle mynd i fyd addysg," meddai Siôn Wyn, "ac fe ges i swydd gyda chyfrifiaduron yn Rhydychen."

Ar ôl gweithio am gyfnod gyda chwmni arall yng Nghaer, daeth Siôn Wyn a hen ffrind ysgol at ei gilydd i ffurfio cwmni bach newydd. Erbyn hyn mae gan gwmni *F J Systems* dri deg o bobl yn gweithio iddyn nhw ac mae ganddyn nhw swyddfeydd yn Llanelwy, Northwich a Milan.

"Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith ni ar gyfer meddygon ac ysbytai," meddai Siôn Wyn.

Mae Siôn Wyn hefyd yn dysgu'n rhan amser yn y coleg yn Aberystwyth ac mae myfyrwyr o'r coleg yn dod i weithio ato fe er mwyn iddyn nhw gael profiad gwaith mewn diwydiant.

"Mae'r myfyrwyr yn gallu mynd i weithio i Milan hefyd," meddai Siôn Wyn "ac mae llawer ohonyn nhw'n hoffi mynd yno achos mae'r tywydd yn ardderchog a, hefyd, maen nhw'n cael cyfle i ddysgu iaith newydd - Eidaleg."

Mae gan y cwmni lawer o bethau newydd ar gyfer y dyfodol ac mae Siôn Wyn yn gweld bydd y *rhyngrwyd yn gwneud gwahaniaeth mawr i gysylltu â gweddill y byd gyda chyfrifiaduron.

"A hefyd," meddai Siôn Wyn, "yn y dyfodol bydd cyfrifiaduron yn mynd yn llai o ran maint ond byddan nhw'n gallu gwneud llawer mwy o bethau."

*[rhyngrwyd - internet]

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Gwaith

Pecyn: Ceisio am swyddi

Haen Uwch

| **Sgìl** | **Tasgau Posibl** |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Darllen 'Fy Mlwyddyn Allan' (tud. 70 ffeil gweithgareddau Byd Gwaith, CBAC) ac ateb cwestiynau. |
| Llafar (Chwarae rôl) | Gweler sgwrs sefyllfa: *Gadael yr ysgol.* |
| Ysgrifennu | 'Hoffwn gymeryd 'blwyddyn allan' a dyma beth faswn i'n ei wneud…' |

www.xtrapapers.com



## CHWARAE RÔL/SGWRS SYLFAENOL

Haen Sylfaenol

**Y Sefyllfa - Gadael ysgol.**

Ar ôl gwneud yn dda yn yr arholiad TGAU rydych chi eisiau gadael yr ysgol. Rhaid i chi berswadio'ch tad/mam i roi caniatâd i chi. Yr athro/athrawes ydy eich tad/mam.

*(After doing well in your GCSE exams you want to leave school. You have to persuade your father/mother to give you permission. Your teacher is your mother/father.)*

Dylech:

(i) dechrau gyda chyfarchiad addas,
(ii) dweud eich bod chi eisiau gadael yr ysgol,
(iii) sôn am ffrindiau sy'n gweithio,
(iv) dweud sut waith hoffech chi gael,
(v) sôn am yr arian mae eich ffrindiau yn ennill,
(vi) gofyn am ganiatâd i adael yr ysgol,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) begin with an appropriate greeting,*
*(ii) say that you want to leave school,*
*(iii) mention friends who are working,*
*(iv) say what kind of work you would like,*
*(v) mention the money your friends are earning,*
*(vi) ask for permission to leave school,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



## CHWARAE RÔL/SGWRS SYLFAENOL

Haen Uwch

**Y Sefyllfa - Gadael ysgol.**

Ar ôl gwneud yn dda yn yr arholiad TGAU rydych chi eisiau gadael yr ysgol. Rhaid i chi berswadio'ch tad/mam i roi caniatâd i chi. Yr athro/athrawes ydy eich tad/mam.

*(After doing well in your GCSE exams you want to leave school. You have to persuade your father/mother to give you permission. Your teacher is your mother/father.)*

Dylech:

(i) dechrau gyda chyfarchiad addas,
(ii) dweud eich bod chi eisiau gadael yr ysgol. Pam?
(iii) sôn am ffrindiau sy'n gweithio,
(iv) dweud sut waith hoffech chi gael. Pam?
(v) sôn am yr arian mae eich ffrindiau yn ennill,
(vi) perswadio'ch mam/tad i roi caniatâd i chi adael yr ysgol,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) begin with an appropriate greeting,*
*(ii) say that you want to leave school. Why?*
*(iii) mention friends who are working,*
*(iv) say what kind of work you would like. Why?*
*(v) mention the money your friends are earning,*
*(vi) persuade your mother/father to allow you to leave,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



Cylch Profiad: Gwaith

Pecyn: Ceisio am swyddi

Haen Uwch

| **Sgìl** | **Tasgau Posibl** |
|---|---|
| Darllen (asesu trwy ysgrifennu) | Darllen llythyr Fresho (tud 94 ffeil gweithgareddau Byd Gwaith, CBAC).<br>Asesiad llenwi ffurflen, (tud 91 ffeil gweithgareddau Byd Gwaith, CBAC). |
| Llafar<br>(Unigol) | Profiad o weithio rhan amser. |
| Llafar<br>(Chwarae rôl) | Gweler sgwrs sefyllfa: *Ffonio am waith.* |
| Ysgrifennu | Gwaith Ysgrifennu – Arolwg o swyddi rhan amser ar gyfer disgyblion ysgol yn yr ardal.<br>i) Nodi y swydd.<br>ii) Disgrifio'r gwaith.<br>iii) Amseroedd.<br>iv) Cyflog.<br>v) Mwynhau?<br>vi) Graff cymharu – niferoedd ym mlwyddyn 11. |

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL/SGWRS SEFYLLFA.**

Haen Sylfaenol

Y Sefyllfa - Ffonio am waith.

Mae
***CWMNI TELEDU ANGENDA***
yn chwilio am dalent newydd ar gyfer rhaglenni ar S4C

Diddordeb? Ffoniwch
(01247) 235235

Rydych chi wedi gweld yr hysbyseb uchod ac mae diddordeb gennych chi. Rydych chi'n ffonio.
*(You have seen the above advertisement and you are interested. You phone.)*

Dylech:

(i) dweud pwy ydych chi,
(ii) egluro bod diddordeb gyda chi,
(iii) disgrifio eich hun,
(iv) sôn am eich hoff raglen/raglenni,
(v) holi am y recordio/ffilmio (dyddiad/amser/lle),
(vi) gofyn faint fyddwch chi'n cael eich talu,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) say who you are,*
*(ii) explain that you are interested,*
*(iii) describe yourself,*
*(iv) talk about your favourite programme/s,*
*(v) enquire about the recording/filming (date/time/place),*
*(vi) ask how much you will be paid,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



**CHWARAE RÔL/SGWRS SEFYLLFA.**

Haen Uwch

Y Sefyllfa - Ffonio am waith.

| |
|---|
| Mae<br>***CWMNI TELEDU ANGENDA***<br>yn chwilio am dalent newydd ar gyfer rhaglenni ar S4C<br><br>Diddordeb? Ffoniwch<br>(01247) 235235 |

Rydych chi wedi gweld yr hysbyseb uchod ac mae diddordeb gennych chi. Rydych chi'n ffonio.
*(You have seen the above advertisement and you are interested. You phone.)*

Dylech:

(i) dweud pwy ydych chi,
(ii) egluro pam rydych chi'n ffonio,
(iii) disgrifio eich hun gan sôn am beth allwch chi wneud,
(iv) sôn am eich hoff raglen/rhaglenni,
(v) holi am y recordio/ffilmio (dyddiad/amser/lle),
(vi) gofyn faint fyddwch chi'n cael eich talu gan ddweud beth allech chi wneud â'r arian,
(vii) gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol.

*You should:*

*(i) say who you are,*
*(ii) explain why you are phoning,*
*(iii) describe yourself mentioning what you can do,*
*(iv) talk about your favourite programme/s,*
*(v) enquire about the recording/filming (date/time/place),*
*(vi) ask how much you will be paid saying what you could do with the money,*
*(vii) end the conversation in an appropriate manner.*

www.xtrapapers.com



## CYNLLUN MARCIO - YSGRIFENNU

| Marc | Cynnwys | | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|---|
| 10 | • Uchelgeisiol iawn o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn gynhwysfawr gan gynhyrchu gwaith estynedig.<br>• Mynegi barn yn rhwydd ac yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol, a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn.<br>• Gwaith creadigol gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol. | **A*** | • Cyfathrebu'n hyderus iawn.<br>• Geirfa hynod o gyfoethog.<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gyson gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Elfen gref o gywirdeb trwy'r gwaith i gyd. | 10 |
| 9 | • Uchelgeisiol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cynllun da a dilyniant priodol.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn weddol gynhwysfawr gan gynhyrchu gwaith eithaf estynedig.<br>• Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig peth tystiolaeth i gefnogi barn.<br>• Gwaith creadigol diddorol sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol. | **A** | • Cyfathrebu'n hyderus.<br>• Geirfa gyfoethog.<br>• Defnyddio ystod amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn rheolaidd gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd.<br>• Elfen gref o gywirdeb yn nodweddu'r gwaith. | 9 |
| 8 | • Diddorol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Ôl cynllunio amlwg a dilyniant priodol.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn ddigon hyderus.<br>• Mynegi barn yn eitha hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn.<br>• Gwaith creadigol eitha diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol. | **B** | • Cyfathrebu'n rhwydd.<br>• Geirfa dda iawn.<br>• Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gywir ar y cyfan.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Elfen amlwg o gywirdeb trwy'r gwaith i gyd. | 8 |

www.xtrapapers.com



| Marc | Cynnwys | | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|---|
| 6-7 | • Digonol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Ôl cynllunio a'r gwaith yn datblygu'n synhwyrol.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol ar y cyfan.<br>• Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau digonol i gefnogi barn.<br>• Gwaith creadigol a phersonol sy'n llwyddo i gadw ein diddordeb. | **C** | • Cyfathrebu'n rhwydd a llwyddiannus ar y cyfan.<br>• Geirfa dda.<br>• Defnyddio amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio prif gystrawennau sylfaenol y Gymraeg yn gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir.<br>• Elfen amlwg o gywirdeb trwy'r rhan fwyaf o'r gwaith. | 6-7 |
| 5 | • Digonol o ran cynnwys, syniadau a barn, ond braidd yn ddifflach.<br>• Ôl cynllunio a'r gwaith yn datblygu'n weddol naturiol.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn ddigon effeithiol ar y cyfan.<br>• Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan.<br>• Gwaith creadigol a phersonol sy ar y cyfan yn llwyddo i gadw ein diddordeb. | **D** | • Cyfathrebu'n eithaf rhwydd a llwyddiannus ar y cyfan.<br>• Geirfa eitha da.<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol digonol.<br>• Defnyddio'r rhan fwyaf o brif gystrawennau sylfaenol y Gymraeg yn gywir.<br>• Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson) ar adegau.<br>• Iaith yn weddol gywir ar y cyfan. | 5 |
| 4 | • Yn arwynebol o ran cynnwys, syniadau a barn gan gadw at y disgwyliadwy yn unig.<br>• Peth ôl cynllunio a rhannau'n datblygu'n synhwyrol.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar bynciau cyfarwydd yn ddigon effeithiol.<br>• Mynegi barn ar bynciau cyfarwydd yn eithaf effeithiol gan roi rhesymau syml.<br>• Ysgrifennu personol diddorol ar destunau cyfarwydd. | **E** | • Cyfathrebu'n ddealladwy.<br>• Geirfa sylfaenol.<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol.<br>• Defnyddio rhai o brif gystrawennau sylfaenol y Gymraeg yn gywir.<br>• Cryn ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson).<br>• Iaith yn weddol gywir ond rhai camgymeriadau amlwg. | 4 |

www.xtrapapers.com



| Marc | Cynnwys | | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|---|
| 3 | • Arwynebol iawn o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu'n synhwyrol.<br>• Cyflwyno gwybodaeth syml ar bynciau cyfarwydd yn effeithiol.<br>• Mynegi barn yn syml gan roi rhesymau syml.<br>• Ysgrifennu personol eitha diddorol ar destunau cyfarwydd. | **F** | • Cyfathrebu'n ddealladwy ond yn betrusgar.<br>• Geirfa gyfyngedig a pheth defnydd o'r Saesneg.<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnydd cyfyngedig o gystrawennau Cymraeg.<br>• Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). Dibynnu'n ormodol ar y presennol.<br>• cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig. | 3 |
| 2 | • Cyfyngedig iawn o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Ychydig iawn o dystiolaeth o gynllunio ond peth dilyniant i'w weld yma ac acw.<br>• Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth elfennol iawn.<br>• Mynegi barn yn syml iawn gan gynnig ambell reswm syml iawn.<br>• Paragraff o ysgrifennu personol eitha diddorol ar destunau syml, cyfarwydd. | **G** | • Cyfathrebu'n ddealladwy ar adegau.<br>• Geirfa gyfyng iawn gyda chryn ddefnydd o'r Saesneg.<br>• Defnyddio geiriau unigol yn aml yn hytrach nag ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnydd cyfyngedig iawn o gystrawennau Cymraeg.<br>• Ffurfiau berfol anghywir yn aml.<br>• Cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml iawn yn unig. | 2 |
| 0-1 | • Dyma'r ymgeiswyr fydd heb radd.<br>• Ychydig iawn o gynnwys.<br>• Dim tystiolaeth o gynllunio ond ambell frawddeg yn dilyn yr un flaenorol yn synhwyrol.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn syml iawn, iawn mewn ychydig frawddegau.<br>• Ymdrech elfennol iawn i fynegi barn gan lwyddo gydag ambell reswm syml iawn.<br>• Ysgrifennu ychydig o frawddegau eitha diddorol ar destunau syml, cyfarwydd. | **U** | • Cyfathrebu'n ddealladwy ar adegau prin.<br>• Geirfa gyfyngedig iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg.<br>• Diffygion amlwg iawn yn y gystrawen.<br>• Fawr ddim i'w wobrwyo. | 0-1 |

www.xtrapapers.com



# CYNLLUN MARCIO - DARLLEN

**A* 16 - 15**

- Yn dod o hyd i wahanol haenau o ystyr.
- Yn mynegi barn bersonol ynghyd â rhoi tystiolaeth lawn.
- Yn codi, yn cyfuno ac yn cyflwyno gwybodaeth o ddarn/darnau i bwrpas.

**A 14 - 13**

- Yn dethol a dehongli'r prif bwyntiau wrth ddod i gasgliad.
- Yn mynegi barn bersonol ar destun ac yn cynnig rhesymau dros y sylwadau.
- Yn codi gwybodaeth berthnasol o ddarn/darnau a'u crynhoi yn effeithiol.

**B 12 - 11**

- Yn dethol a dehongli'r prif bwyntiau.
- Yn mynegi barn gan gynnig rhai rhesymau i gefnogi safbwynt.
- Yn codi gwybodaeth berthnasol o ddarn/darnau a nodi'r prif bwyntiau.

**C 10 - 9**

- Yn dethol y prif bwyntiau o ddarnau sy o fewn eu profiad.
- Yn mynegi barn gan gynnig rhesymau amlwg i gefnogi safbwynt.
- Yn codi gwybodaeth o ddarn/darnau a nodi rhai o'r prif bwyntiau.

**D 8 - 7**

- Dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a'r prif fanylion.
- Yn mynegi barn yn syml.
- Yn dewis gwybodaeth berthnasol.

**E 6 - 5**

- Dangos dealltwriaeth o brif rediad paragraffau a sgyrsiau byr mewn cyd-destunau cyfarwydd.
- Yn mynegi barn yn syml iawn.
- Yn didoli ffeithiau allweddol a manylion arwyddocaol.

**F 4 - 3**

- Dangos dealltwriaeth o rai paragraffau a sgyrsiau mewn cyd destunau cyfarwydd.
- Ymgais i fynegi barn.
- Yn didoli rhai ffeithiau allweddol a manylion arwyddocaol.

**G 2**

- Dangos dealltwriaeth arwynebol o rai paragraffau a sgyrsiau mewn cyd destun cyfarwydd.
- Yn didoli ambell ffaith allweddol ac ambell fanylyn arwyddocaol.

www.xtrapapers.com



**U 1**

- Dangos dealltwriaeth o ambell air ac ymadrodd mewn paragraffau a sgyrsiau mewn cyd-destun cyfarwydd.
- Yn didoli ambell ffaith syml allweddol ac ambell fanylyn syml.

**+ marciau am gywirdeb iaith wrth ymateb i ddarllen:**

4 marc am gywirdeb iaith wrth ymateb:
4 marc – defnydd cywir o iaith.
3 marc – defnydd eitha cywir o iaith ac yn llwyddo i gyfathrebu'n ystyrlon.
2 farc – defnydd gweddol gywir o iaith ac ar y cyfan yn llwyddo i gyfathrebu'n ystyrlon.
1 marc – yn llwyddo i gyfathrebu'n ystyrlon mewn rhannau.

www.xtrapapers.com



## CYNLLUN MARCIO'R SGWRS SEFYLLFA/ CHWARAE RÔL

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Gradd</th><th>Mynegiant</th><th>marc</th></tr>
<tr><td rowspan="4">Haen Uwch [20]<br>1 marc y cam am gyflawni gofynion 7 cam y dasg + 3 marc ychwanegol am y 3 cam ymestynnol.<br>e.e. gweler sgwrs sefyllfa pecyn "Fy Ffrind" – "Llên a Llun."<br><br>CLWB RYGBI MOFFETT<br>Dylech:<br>(i) Dweud pwy ydych chi. [2]<br>(ii) Egluro pam rydych chi'n ffonio. [4]<br>(iii) Dweud pryd mae pen-blwydd eich ffrind a pha oed bydd e/hi. [4]<br>(iv) Sôn am beth rydych chi eisiau i fwyta ac yfed. [2]<br>(v) Dweud faint a phwy fydd yn y parti. [2]<br>(vi) Holi am y pris gan ddweud faint rydych chi'n gallu talu. [4]<br>(vii) Gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol. [2]<br><br><u>Cyfanswm 20 marc</u></td><td>A*</td><td>• Cyfathrebu'n hyderus iawn.<br>• Geirfa hynod o addas ar gyfer y dasg.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gyson gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Elfen gref o gywirdeb.<br>• Ynganu bron yn berffaith.</td><td>19-20</td></tr>
<tr><td>A</td><td>• Cyfathrebu'n hyderus.<br>• Geirfa addas ar gyfer y dasg.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd.<br>• Elfen gref o gywirdeb.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir.</td><td>17-18</td></tr>
<tr><td>B</td><td>• Cyfathrebu'n rhwydd.<br>• Geirfa dda ar gyfer y dasg.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Iaith yn gywir iawn ar y cyfan.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir ar y cyfan.</td><td>15-16</td></tr>
<tr><td>C</td><td>• Cyfathrebu'n rhwydd ar y cyfan.<br>• Geirfa dda ar gyfer y dasg.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gywir ar y cyfan.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir.<br>• Iaith yn gywir ar y cyfan.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir fel arfer.</td><td>12-14</td></tr>
</table>

www.xtrapapers.com



## CYNLLUN MARCIO'R SGWRS SEFYLLFA/ CHWARAE RÔL

| Cynnwys | Gradd | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|
| **Haen Sylfaenol [14]**<br>1 marc y cam am gyflawni gofynion 7 cam y dasg.<br>e.e. gweler sgwrs sefyllfa pecyn "Fy Ffrind" – "Llên a Llun."<br><br>CLWB RYGBI MOFFETT<br>(i) Ddweud pwy ydych chi. [2]<br>(ii) Egluro eich bod chi eisiau parti yn y Clwb Rygbi. [2]<br>(iii) Dweud pryd mae pen-blwydd eich ffrind. [2]<br>(iv) Sôn am beth rydych chi eisiau i fwyta ac yfed. [2]<br>(v) Dweud faint a phwy fydd yn y parti. [2]<br>(vi) Holi am y pris. [2]<br>(vii) Gorffen y sgwrs mewn ffordd briodol. [2]<br><br><u>Cyfanswm 14 marc</u> | D | • Cyfathrebu'n eithaf rhwydd ar y cyfan.<br>• Geirfa eithaf da ar gyfer y dasg.<br>• Defnyddio rhai cystrawennau Cymraeg yn gywir.<br>• Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson) ar adegau.<br>• Iaith yn weddol gywir ar y cyfan.<br>• Ynganu'n ddigon cywir a chlir. | 9-11 |
| | E | • Cyfathrebu'n ddealladwy.<br>• Geirfa ddisgwyliadwy ar gyfer y dasg gyda pheth Saesneg.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg ond camgymeriadau amlwg.<br>• Cryn ansirwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson).<br>• Iaith weddol gywir ond camgymeriadau amlwg.<br>• Ynganu'n ddigon clir weithiau. | 7-8 |
| | F | • Cyfathrebu'n ddealladwy ond petrusgar a heriog iawn.<br>• Geirfa gyfyng a defnyddio'r Saesneg yn aml.<br>• Defnydd cyfyngedig o gystrawennau Cymraeg.<br>• Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). Dibynnu'n ormodol ar y presennol.<br>• Diffyg cywirdeb iaith.<br>• Ynganu'n ddealladwy i wrandawr cydymdeimladol. | 5-6 |
| | G | • Cyfathrebu'n ddealladwy weithiau i wrandawr cydymdeimladol.<br>• Geirfa gyfyng iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg.<br>• Dim defnydd o gystrawennau Cymraeg.<br>• Ffurfiau berfol anghywir yn aml.<br>• Iaith wallus iawn.<br>• Ynganu'n aneglur fel arfer. | 3-4 |
| | U | • Diffyg cyfathrebu.<br>• Geirfa gyfyng a syml iawn.<br>• Dim llawer i'w wobrwyo. | 1-2 |

www.xtrapapers.com



**CYNLLUN MARCIO – LLAFAR - Cyflwyniad Unigol**

| Marc | Cynnwys | | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|---|
| 19-20 | • Uchelgeisiol iawn o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynhyrchu cyfraniadau estynedig lle'n briodol.<br>• Mynegi barn yn hyderus iawn gan ymresymu'n berthnasol. | **A*** | • Cyfathrebu'n hyderus iawn.<br>• Geirfa hynod o gyfoethog.<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gyson gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Elfen gref o gywirdeb.<br>• Ynganu bron yn berffaith. | 19-20 |
| 17-18 | • Uchelgeisiol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynhyrchu cyfraniadau eithaf estynedig weithiau.<br>• Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol. | **A** | • Cyfathrebu'n hyderus.<br>• Geirfa gyfoethog.<br>• Defnyddio ystod amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn rheolaidd gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd.<br>• Elfen gref o gywirdeb.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir. | 17-18 |
| 15-16 | • Diddorol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn ddigon hyderus.<br>• Yn barod iawn i fynegi barn gan roi rhesymau dilys. | **B** | • Cyfathrebu'n rhwydd.<br>• Geirfa dda iawn.<br>• Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Iaith yn gywir iawn ar y cyfan.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir ar y cyfan. | 15-16 |

www.xtrapapers.com



| Marc | Cynnwys | | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|---|
| 12-14 | • Digonol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn effeithiol.<br>• Yn barod i fynegi barn gan roi rhesymau digonol. | **C** | • Cyfathrebu'n rhwydd ar y cyfan.<br>• Geirfa dda.<br>• Defnyddio amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gywir ar y cyfan.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir.<br>• Iaith yn gywir ar y cyfan.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir fel arfer. | 12-14 |
| 9-11 | • Digonol o ran cynnwys, syniadau a barn, ond braidd yn ddifflach.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn ddigon effeithiol ar y cyfan.<br>• Mynegi barn yn effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan. | **D** | • Cyfathrebu'n eithaf rhwydd ar y cyfan.<br>• Geirfa eitha da.<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol digonol.<br>• Defnyddio rhai cystrawennau Cymraeg yn gywir.<br>• Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson) ar adegau.<br>• Iaith yn weddol gywir ar y cyfan.<br>• Ynganu'n ddigon cywir a chlir. | 9-11 |
| 7-8 | • Yn arwynebol o ran cynnwys, syniadau a barn gan gadw at y disgwyliadwy.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar bynciau cyfarwydd yn ddigon effeithiol.<br>• Mynegi barn yn eithaf effeithiol gan roi rhesymau syml. | **E** | • Cyfathrebu'n ddealladwy.<br>• Geirfa ddisgwyliadwy.<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg ond camgymeriadau amlwg.<br>• Cryn ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson).<br>• Iaith yn weddol gywir ond camgymeriadau amlwg.<br>• Ynganu'n ddigon clir weithiau. | 7-8 |

www.xtrapapers.com



| Marc | Cynnwys | | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|---|
| 5-6 | • Arwynebol iawn o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth syml ar rai pynciau cyfarwydd.<br>• Mynegi barn syml gan roi rhesymau syml. | **F** | • Cyfathrebu'n ddealladwy ond petrusgar a heriog iawn.<br>• Geirfa gyfyng a defnyddio'r Saesneg yn aml.<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnydd cyfyngedig o gystrawennau Cymraeg.<br>• Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). Dibynnu'n ormodol ar y presennol.<br>• Diffyg cywirdeb iaith.<br>• Ynganu’n ddealladwy i wrandawr cydymdeimladol. | 5-6 |
| 3-4 | • Fawr ddim o gynnwys, syniadau na barn.<br>• Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth elfennol iawn.<br>• Mynegi barn syml iawn heb resymau. | **G** | • Cyfathrebu'n ddealladwy weithiau i wrandawr cydymdeimladol.<br>• Geirfa gyfyng iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg.<br>• Defnyddio geiriau unigol yn aml yn hytrach nag ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Dim defnydd o gystrawennau Cymraeg.<br>• Ffurfiau berfol anghywir yn aml.<br>• Iaith wallus iawn.<br>• Ynganu'n aneglur fel arfer. | 3-4 |
| 1-2 | • Dyma'r ymgeiswyr fydd heb radd.<br>• Dim llawer o ymdrech i gyfrannu o gwbl.<br>• Diffyg barn. | **U** | • Diffyg cyfathrebu.<br>• Geirfa gyfyng a syml iawn.<br>• Dim llawer i’w wobrwyo. | 1-2 |